



Ein cyf/Our ref – Housing

15 Ionawr 2020

Penaethiaid Cynllunio,
Awdurdodau Cynllunio Lleol

Annwyl Gyfaill,

Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr ymrwymedig i ddefnyddio system gynllunio a arweinir gan gynllun ac sy'n cydnabod rôl hanfodol cynlluniau datblygu wrth sicrhau lleoedd o ansawdd da. Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC): Argraffiad 10 yn sicrhau bod creu lleoedd wrth galon ein system gynllunio. Mae bellach yn ystyriaeth allweddol wrth wneud penderfyniadau ar gynlluniau datblygu a rheoli datblygu.

Mae'n hanfodol bod Cynlluniau Datblygu Lleol yn cael eu llunio a'u hadolygu a bod eu dyraniadau defnydd tir yn cael eu cyflwyno yn unol â disgwyliadau cymunedol. Fodd bynnag, mae tystiolaeth bod datblygiadau preswyl tybiannol ac anghynladwy wedi'u cynnig y tu allan i gwmpas y Cynlluniau a fabwysiadwyd.

I atgyfnerthu'r cyd-destun polisi a nodir yn Argraffiad 10 o PCC, rwyf wedi penderfynu diwygio'r darpariaethau mewn perthynas â "Datblygiad Preswyl Sylweddol" yng Nghyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Cymru) 2012 (Cyfarwyddyd 2012) a pharagraffau 16 i 18 o Gylchlythyr 07/12 Llywodraeth Cymru. Mae **Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Preswyl Mawr) (Hysbysu) (Cymru) 2020** (Cyfarwyddyd 2020) a'r Canllawiau i'w gweld drwy'r ddolen hon:

<https://llyw.cymru/cyfeirio-ceisiadau-cynllunio-ar-gyfer-datblygiadau-preswyl-mawr-weinidogion-cymru>

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd Cyfarwyddyd 2020 yn gymwys i geisiadau a wneir ar 13 Ionawr 2020 neu ar ôl hynny. Mae'n ofynnol dan y Cyfarwyddyd bod Gweinidogion Cymru yn cael gwybod am geisiadau a wneir ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw ar gyfer unrhyw ddatblygiad preswyl arfaethedig sy'n **10 neu ragor o unedau preswyl**, neu ddatblygiad preswyl ar **0.5 hectar neu ragor o dir**, nad yw'n unol ag un neu ragor o ddarpariaethau'r cynllun datblygu sydd mewn grym ac nad yw'r awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu ei wrthod.

Yn gywir,



Julie James AC/AM

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government